**Beirniadaeth Cystadleuaeth 371**

**Rhyddiaith 5 a 6 Dysgwyr 'Diwrnod i'w gofio'**

**Beirniad: Rhian Hayes**

Roedd hi'n bleser o'r mwyaf cael darllen y deg cais ar y testun 'Diwrnod i'w gofio'. Dewiswyd pynciau difyr ac amrywiol, gan adlewyrchu ystod eang o brofiadau personol. Cafwyd atgofion hyfryd am ddiwrnod Nadolig, profiadau newydd megis hedfan am y tro cyntaf, ac ambell antur gofiadwy ar deithiau a gwyliau.

Yn nifer o'r darnau, llwyddwyd i greu disgrifiadau byw a lliwgar, gyda defnydd effeithiol o fanylion synhwyraidd a oedd yn cyfoethogi'r naratif. Gwelwyd hefyd ymdrech glodwiw i strwythuro'r gwaith yn ofalus, gyda dechrau, canol a diwedd clir, a defnydd cynyddol hyderus o ansoddeiriau, cymariaethau ac ymadroddion addas.

Serch hynny, wrth gymharu'r ceisiadau, daeth yn amlwg fod patrwm tebyg i'w weld mewn rhai darnau o ran cynnwys a dull o adrodd. Er bod hyn yn ddealladwy ymhlith dysgwyr, byddai mwy o fentro o ran syniadau a llais personol yn cryfhau'r gwaith ymhellach.

Wrth ystyried y ceisiadau gorau, roedd y rhai a lwyddodd i sefyll allan yn cyfuno strwythur cadarn â mynegiant naturiol a syniad gwreiddiol, gan greu darnau oedd nid yn unig yn gywir ond hefyd yn gofiadwy eu heffaith.

**Y Canlyniadau**

Roedd y gystadleuaeth yn un agos iawn, gyda sawl darn yn dangos cryfderau amlwg. Fodd bynnag, wedi pwyso a mesur yn ofalus, dyfarnwyd y gwobrau fel a ganlyn:

**3ydd: Merch y Don**
Dyma ddarn dyfeisgar sy'n troi'r testun ar ei ben drwy ganolbwyntio ar ddiwrnod i'w anghofio yn hytrach na diwrnod i'w gofio. Llwyddir i fachu sylw o'r cychwyn cyntaf, ac mae'r naratif yn datblygu'n effeithiol drwy gydol y darn. Ceir cryfder arbennig yn y modd y caiff awyrgylch ei greu, gan gynnal fy niddordeb. Daw'r darn i ben mewn modd cofiadwy, gyda mynegiant gonest o deimladau sy'n tanlinellu effaith y profiad.

**2il: Steve Kevin Bob Jones**
Hanes trip i ddysgu am 'Jemima Nicholas'. Dyma ddarn pleserus i'w ddarllen, wedi'i strwythuro'n ofalus ac yn llawn manylder, gan greu darlun clir, cam wrth gam o'r diwrnod arbennig, teimaf bron fel pe baem yn teithio ochr yn ochr â'r ymgeisydd.

**1af: Kilian Stokes-Backshall**

Dyma ddarn sy'n cydio yn fy sylw o'r cychwyn cyntaf ac yn cynnal y diddordeb hwnnw'n fedrus hyd at y diwedd. Mae'r syniad canolog o gael hufen iâ gyda phob pryd o fwyd yn wreiddiol ac yn llawn hiwmor, ac fe'i datblygir yn fedrus drwy gydol y naratif. Ceir cydbwysedd llwyddiannus rhwng strwythur cadarn a mynegiant bywiog, gan arwain at ddarn sy'n darllen yn rhwydd ac yn bleserus.

Llongyfarchiadau mawr.